# Y Wennol

**Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen**

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 4 | Yn rhad ac am ddim | Gorffennaf 2021


## Cynllun Iaith i Ddysgwyr

### Creu grwpiau cynnal

**A ydi hi'n bosib creu sylfaen cadarn i'r iaith Gymraeg wrth sicrhau bod mwy o'n dysgwyr yn cyrraedd ein cymunedau Cymraeg blwyddyn ar ôl blwyddyn?**

**Ydi, mae hi!**

Dyma stori wir:

**Dysgwyr Southgate**

Rhai blynyddoedd yn ôl roedd dysgwyr o Southgate, pentref ar Gŵyr, yn poeni bydd diwedd eu cwrs dosbarth nos yn dod i ben a'u cyfle o siarad Cymraeg yn dod i ben hefyd. Doedden nhw ddim yn hapus am hyn, roedden nhw wedi bod yn gweithio mor galed ond heb ddarganfod y drws i mewn i'r gymuned Cymraeg. Oedd gymuned Cymraeg yn Southgate hyd yn oed? Ar y wyneb roedd y pentref yn hollol Saesnig.

Penderfynon nhw ddod at ei gilydd i ffurfio grŵp, roedd perchennog y caffi lleol yn gefnogol o'r iaith - roedd ei blant yn mynd i'r ysgol Cymraeg lleol. Roedd yn hapus iawn i'r dysgwyr cael cornel o'r caffi ar gyfer eu cyfarfodydd, roedd o hyd yn oed yn cynnig gostyngiad iddyn nhw. Roedd y grŵp yn cyfarfod pob prynhawn dydd Mawrth. Roedd pobl leol yn eu clywed nhw'n siarad Cymraeg ac, yn syndod i'r dysgwyr, roedd rhai yn siaradwyr Cymraeg. Roedd y bobl Gymraeg yma yn dod atyn nhw i siarad, yn Gymraeg wrth gwrs. Yn fuan iawn wnaeth rywun gwahodd nhw i fynd i'r Gymdeithas Gymraeg yn Llandeilo Ferwallt. Cawson nhw groeso mawr ac ers hynny maen nhw wedi bod yn aelodau selog.

Wrth wneud rhywbeth mor syml â sefydlu grŵp anffurfiol roedden nhw wedi syrthio ar draws y drws i'r gymuned Cymraeg. Maen nhw wedi elwa ac o hynny ymlaen nid dysgwyr oedden nhw ond Siaradwyr Newydd yr iaith.

Mae angen mwy o Siaradwyr Newydd ar ein hiaith ac mae'n hawdd iawn i efelychu llwyddiant dysgwyr Southgate, nid dim ond mewn un neu ddau o lefydd ond dros Gymru gyfan.

Mae gennym ni ddeng mlynedd tan y cyfrifiad nesaf a chyfle i wneud gwahaniaeth mawr. Bydd cyfrifiad 2031 yn dangos llwyddiant ein hymdrechion ac yn neges i bawb bod yr iaith Gymraeg nid yn unig yn fyw ond yn fywiog ac yn ffynnu.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

**Pwyntiau pwysig sy'n codi o'r stori**

1 Bod modd i ddysgwyr, sydd yn poeni am golli cysylltiad â'r iaith, greu grŵp anffurfiol er mwyn siarad Cymraeg gyda'i gilydd.

2 Os yw'r grŵp yn cyfarfod mewn lle gweledol bydden nhw'n tynnu sylw Cymry Cymraeg yr ardal a chael cyfleoedd i ymuno a wahanol fudiadau yn yr ardal.

3 Yn ddelfrydol dyle nhw gyfarfod mewn caffi lleol ond efallai does dim lle derbyniol ar gael. Dan yr amgylchiadau hynny mae'n bwysig bod y dysgwyr yn defnyddio'r papur bro i hysbysu pawb o'u bodolaeth.

4 Ar hyn o bryd mae cyfyngiadau ond mae'n bosib i'r grŵp ffurfio fel grŵp cerdded ar y dechrau cyn belled â bod nhw'n cadw at reolau pellter cymdeithasol. Beth sydd yn bwysig yw iddyn nhw ffurfio grŵp er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli'r cysylltiad.

**Sut mae'r dysgwyr wedi elwa?**

Mae dysgwyr Southgate wedi elwa wrth gael gwahoddiad i ymuno â Chymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt a chyfle i ddod i adnabod llawer o Gymry lleol, dysgu pob math o bethau wrth wrando ar siaradwyr gwadd a gweithgareddau eraill trwy'r flwyddyn. Yn syml iawn maen nhw wedi cael eu derbyn fel rhan werthfawr o'r gymuned Cymraeg.

**Sut mae'r gymuned wedi elwa?**

Heb amheuaeth mae'r dysgwyr yn frwdfrydig am siarad yr iaith. Mae eu dosbarthiadau nos wedi dod i ben ac maen nhw'n dysgu wrth siarad a chymysgu efo Cymry Cymraeg. Maen nhw wedi croesi'r ffin rhwng dysgwyr a siaradwyr newydd. Maen nhw'n rhan o'r gymuned a rhan bwysig hefyd yn yr ymdrech i gryfhau ein cymunedau.

**Ydi hi'n bosib efelychu hyn?**

Mae'n bosib gwneud yr un peth mewn pob ardal ble mae gwersi dosbarthiadau nos yn bodoli. Dychmygwch y gwahaniaeth i'n cymunedau os allwn ni bwydo canran fawr o'n dysgwyr i mewn i'n cymunedau blwyddyn ar ôl blwyddyn. Ond nid yw'r daith yn dechrau tan y cam cyntaf!

**Rhan y tiwtoriaid**

I ddweud wrth y dysgwyr cymaint maen nhw wedi dysgu dros y cyfnod a bod nhw'n bwysig dros ben i'r iaith.

Dweud wrthyn nhw am stori dysgwyr Southgate.

Eu hannog nhw i greu grŵp er mwyn cadw cysylltiad a chael sgyrsiau Cymraeg - pob wythnos os yn bosib.

Dweud wrthyn nhw am fodolaeth y Fenter Iaith leol a chyflwyno nhw i'r papur bro.

Bydd yn werth gwneud hyn ychydig wythnosau cyn yr wythnos olaf er mwyn eu holi am sut mae pethau'n mynd. Eu hannog nhw i gadw cysylltiad efo'r dosbarth, y Fenter Iaith a'r papur bro.

**Manteision posib wrth greu grŵp**

Mae'r grŵp yn gallu bod yn ysbrydoliaeth i ddysgwyr newydd.

Mae aelodau'r grŵp yn gallu helpu yn y dosbarth pob hyn a hyn efo ymarferion siarad. Gall y grŵp fod yn grŵp cynnal.

Bydd y dysgwyr yn gweld bod sianel o'r dosbarth i'r gymuned Cymraeg wrth ddefnyddio'r grŵp cynnal.

Bydd y dosbarthiadau'n bwydo'r grŵp cynnal a'r grŵp cynnal yn bwydo'r gymuned.

Does dim rheswm pam na all y grŵp cynnal ddechrau grwpiau diddordeb eraill fel:

Grŵp cerdded

Grŵp darllen

Grŵp hanes – mae dysgwyr ardal papur bro Ogwr wedi sefydlu grŵp hanes llewyrchus sydd ar agor i holl siaradwyr Cymraeg yr ardal.

Côr

Grŵp Ddrama

Unrhyw fath o grŵp dan haul.

A'r gwir yw dyn ni angen mwy o grwpiau Cymraeg yn ein hardaloedd!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Yn hapus i gyfarfod unwaith eto yn Southgate

## Croeso Cynnes

gan Val Richards

Ydych chi'n gallu dychmygu cael coffi yn heulwen yr haf o dan ymbarél mawr, mewn lleoliad gwych gyda ffrindiau da, yn siarad iaith y nefoedd a rhoi'r byd yn ei le? Mae'n amser hir ers i ni allu gwneud hynny.

Ar yr 22ain o fis Mehefin, ar ôl tua phymtheg mis, dyna oedd uchafbwynt y flwyddyn i'n grŵp o siaradwyr Cymraeg - gyda phellter cymdeithasol, wrth gwrs. Yn ffodus, mae pawb ohonon ni wedi cadw'n ddiogel ac yn iach heb angen i hunan ynysu o gwbl. Bellach, 'dyn ni i gyd wedi cael ein brechu'n llawn ac o'r diwedd, mae cyfyngiadau yn cael eu gostwng yn raddol.

Er bod Zoom wedi bod yn fendith yn ystod y cyfnod clo, does dim byd tebyg i gwrdd â phobl wyneb yn wyneb yn y byd go iawn. Fel pob amser, roedd croeso cynnes i ni ar ein diwrnod cyntaf yn ôl yn Southgate gyda choffi 'ar y tŷ', diolch i berchennog *Three Cliffs Coffee Shop*, Jamie, sy'n gofalu amdanon ni mor dda.

Gobeithio y byddwn ni'n cyfarfod yno bob wythnos o hyn ymlaen. Beth am ddod draw am sgwrs am 2 o'r gloch ar brynhawn Mawrth? Bydden ni wrth ein bodd yn eich gweld chi. Cyfle gwych i chi fwynhau'r iaith dach chi wedi bod yn dysgu efo pobl sydd wedi mynd trwy'r un profiad.

Mae hwyl i gael yn yr iaith!

## Tro ar ein byd!

gan Martin Jones

Dydw i ddim yn meddwl fy mod i'n gor-ddweud pan rydw i'n dweud bod ein cyfarfodydd wythnosol yn y caffi lleol (Siop Goffi'r Tri Chlogwyn) wedi newid ein bywyd! Efallai bod hyn yn swnio tipyn yn anghredadwy, ond mae'n hollol wir achos bod y cyfarfodydd wedi fy helpu i a fy ffrindiau ddod o hyd i'r bont i'r gymuned Gymraeg.

Yn wreiddiol, dim ond dau neu dri ohonon ni'n sgwrsio rhwng dosbarthiadau oedd y cyfarfodydd. Ond dros amser - a chyda chefnogaeth perchenogion y caffi (Jamie a Jodie) ac, am sbel, Menter iaith Abertawe - tyfodd y grŵp nes bod rhyw ugain person ynddo fe, a hyd at bymtheg person yn dod i'r caffi bob wythnos. Roedd cwrdd â phobl eraill a sgwrsio yn y Gymraeg bob wythnos yn wych. Ond dim ond hanner y stori oedd hyn - achos roedd canlyniadau annisgwyl hefyd. Roedden ni'n synnu faint o ddefnyddwyr y caffi - o'n pentref ni neu ymwelwyr - oedd yn siaradwyr Gymraeg. Ac roedd y siaradwyr hyn yn synnu at glywed pobl yn siarad Cymraeg. Ond roedden nhw'n falch iawn, ac yn dod draw i gael sgwrs â ni.

Ond, yn ogystal â hyn, dwedodd Cymraes, a oedd wedi ymuno â'r grŵp, wrthon ni am Gymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt. Mae saith ohonom ni wedi ymaelodi. Heb amheuaeth, o ganlyniad i ddod yn aelodau o'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gymdeithas rydym ni wedi dod i deimlo ein bod yn rhan o'r gymuned Gymraeg yn Abertawe. Nid yn unig o ganlyniad i fynd i gyfarfodydd y Gymdeithas, ond hefyd achos ein bod ni wedi dod i adnabod nifer o siaradwyr Cymraeg a'n hiaith cyfathrebu yw'r Gymraeg. Mae ymuno â'r Gymdeithas wedi agor drysau Cymraeg eraill i ni. Er enghraifft cael mynd i nifer o ddigwyddiadau Cymraeg: teithiau, prydau o fwyd, gemau criced, ac yn y blaen.

Yn y gorffennol, doedd y Cyngor Cymuned leol ddim am gefnogi'r syniad o sefydlu grŵp sgwrsio Cymraeg yn yr ardal, achos - medden nhw - doedd dim siaradwyr Cymraeg yma. Ond mae ein grŵp sgwrsio wedi dangos, hyd yn oed mewn ardal wedi'i Seisnigeiddio fel Pennard a Southgate, cymaint o siaradwyr Cymraeg sydd ym mhob man - llawer mwy, rydw i'n meddwl, na mae pobl yn sylweddoli.

Mae'r Gymraeg yn dipyn o gyfrinach ac mae hyn yn broblem, ond yn ein ffordd ddiniwed rydyn ni wedi dod ar draws un ateb. Wrth i bobl glywed dau neu dri o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn y caffi lleol pob wythnos mae hynny wedi denu llawer mwy i'n plith. Yn ei dro mae hynny wedi sicrhau ein bod ni yn rhan o'r byd mawr Gymraeg go iawn ac yn rhan bwysig o'r gymuned Cymraeg lleol.

*Does dim angen llawer o ddychymyg i ddeall gall yr un peth ddigwydd dros Gymru gyfan. Yr unig beth sydd rhaid gwneud yw sicrhau bod ein dysgwyr, yn enwedig y rhai yn eu blwyddyn olaf, yn cael y syniad yma. Bydd ein dysgwyr brwdfrydig ni yn sicr o weld bydd y fath beth yn cadw nhw yn y byd Cymraeg a thynnu sylw'r Cymry Cymraeg atyn nhw.*

*Mae gwir angen mwy o oedolion brwdfrydig yn ein cymuned ac mae miloedd yn gorffen eu hail flwyddyn pob blwyddyn. Yr adeg yma o'r flwyddyn yw'r amser mae llawer o'n dysgwyr yn mynd ar goll i'r iaith. Dyma ateb syml i'r broblem flynyddol yma ac mae manteision eraill hefyd.*

*Dychmygwch gronfa o ddysgwyr ym mhob ardal ble mae dosbarth nos, mae'r dysgwyr sydd yn eu dilyn nhw yn cael lle i fynd i gael ymarfer siarad gyda chyfeillion sydd wedi bod trwy'r un profiad o ddysgu, ac wedi llwyddo. Bydd Merched y Wawr yn gallu cadw cysylltiad hawdd â nhw a bydd Cymdeithas Edward Llwyd yn gallu rhoi gwahoddiad iddyn nhw pan mae taith maes yn eu hardaloedd. Os bod rhywun eisiau dechrau clwb darllen, côr, clwb hanes lleol, unrhyw fath o grŵp ddiddordeb, mi fydd digon o oedolion brwdfrydig ar gael i wneud hynny. A mwy, a mwy bob blwyddyn o hynny ymlaen.*

*Mae mor syml, a rŵan yw'r amser gorau. Mae ein hiaith angen gwaed newydd ar frys!*

*Diolch am wrando! Rob*

## Wedi anghofio pen-blwydd?

Yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod pen-blwydd eich chwaer yn agosáu ac, ar ôl chwilio ym mhob man does dim byd sy'n gwneud y tro. Dach chi mewn panig!

Os cardiau Cymraeg dach chi angen beth am fynd yn syth at eu gwefan ardderchog nhw www.cardiaucymraeg.com . Mae cardiau yno ar gyfer bob achlysur ac maen nhw'n anhygoel o gyflym!

Cefnogwch y byd Cymraeg



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



# Pont Menai

Os dach chi eisiau rywun i wneud rhywbeth ar frys gofynnwch i rywun prysur, ac mi oedd Thomas Telford yn brysur dros ben. Ers Deddf Unioni Iwerddon a Phrydain yn 1800 roedd y llywodraeth am gael cysylltiad gwell o Lundain i Gaergybi er mwyn gwella'r cysylltiad ag Iwerddon. Roedden nhw eisiau rywun greu'r A5! Meddyliwch am hynny! Doedd Mr J C Bamford ddim wedi meddwl am ddyfeisio'r Jac Codi Baw sydd i'w weld ym mhob man erbyn hyn. Doedd hen, hen Mr a Mrs Bamford ddim wedi meddwl am greu Mr J C Bamford hyd yn oed. Roedd rhaid archwilio'r llwybr - yr holl 252 milltir ac os nad oedd hynny'n ddigon roedd rhaid codi pont dros y Fenai.

Ond nid yw'n ddigon i siarad yn ddiddiwedd am y pethau yma, yn y pendraw mae'n rhaid gweithredu. Felly ar ôl yr holl ymchwiliadau cyhoeddus a sicrhau nad oedd madfallod prin mewn peryg o golli eu cynefin roedd rhaid apwyntio rhywun i wneud y gwaith.

"Pwy yw'r dyn i wneud y gwaith yma?" gofynnodd y Gweinidog Trafnidiaeth.

"Beth am Thomas Telford?" medd rywun.

"Byth wedi clywed amdano!" meddai'r Gweinidog "Ydi o wedi gwneud y fath yma o beth o'r blaen?"

"Nac ydi, does neb wedi cael contract mor fawr â hyn ond efallai bydd yn beth da i gael gair efo fo"

"Iawn," meddai'r Gweinidog "ond well i ni beidio dweud dim am y bont ar hyn o bryd, does dim pwynt codi ofn arno."

A dyna beth ddigwyddodd, am wn i. Aeth Thomas Telford i Westminster, trafod pethau trwy'r bore ac wedyn wnaeth y Gweinidog gwneud yn siŵr bod o'n cael cinio go dda a llawer gormod o win er mwyn sicrhau bydd o'n cytuno i unrhyw beth.

Roedd y llywodraeth wrth eu boddau i gael rhywun i wneud y gwaith. Rhyddhad mawr!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Wrth i'r Gweinidog agor drws y goets fawr iddo, slapiodd ei law ar ei dalcen a dweud "O, gyda llaw Tom, bron i mi anghofio ond mae'n rhaid cael pont dros yr Afon Menai."

"Dim probs," meddai Thomas "dydy codi bont dros ryw afon ddim yn drafferth o gwbl, dw i wedi codi llawer ohonyn nhw."

"Ti'n ddyn arbennig iawn", meddai'r Gweinidog, "siwrne ddiogel i ti, hwyl fawr."

Ond nid afon yw'r Fenai ond rhan o'r môr a'r llanw yn codi a disgyn dwywaith pob diwrnod. Yn waeth na hynny mae'r llif yn beryglus dros ben ac roedd rhaid gosod sylfaen cadarn ar wely'r culfor cyn dechrau adeiladu coesau'r bont. Mae'n hawdd iawn cymryd yn ganiataol sgiliau'r seiri meini a thorrodd pob carreg gyda morthwyl a chyn, gorffen un a dechrau ar y llall.

Rhaid cofio hefyd am y gweithwyr a wnaeth gosod pob carreg ar ben y llall a thrwy'r holl amser roedd y Fenai yn corddi oddi danyn nhw.

Dim peiriannau trwm fel sydd gennym ni'r dyddiau hyn ond nerth bôn braich a llawer o chwys.

Mae'n werth mynd i weld y bont, i sefyll o dani a rhyfeddu ar y strwythur cadarn ac, ar yr un pryd, gosgeiddig. Mae hi wedi sefyll yna ers 1825 ac, yn ei hamser, dyma oedd y bont grog cyntaf yn y byd. Ble bynnag dach chi'n mynd, unrhyw le yn y byd a dach chi'n gweld pont grog cofiwch mi wnaeth popeth ddechrau fan hyn.

Mewn ychydig o flynyddoedd bydd hi'n cael pen-blwydd 200 oed!

## Diolch byth am fywyd gwyllt – teithio ymhellach.

gan Anne Lloyd

Dyn ni wedi dod tipyn bach yn 'twitchers', yn giamsters ar wylio adar ac yn trïo adnabod mathau gwahanol ohonynt pan dyn ni'n mynd i Barc Singleton. Mae llawer o ditŵod tomos las yna - maen nhw'n fach a chiwt iawn, ac yn hedfan i lawr yn gyflym i gael cnau. Ac mae piod yna wrth gwrs - fel arfer dim ond un sy 'na pan fydda i'n cerdded heibio. Dim "lucky" yw fy llysenw!!

Ac wedyn, penderfynon ni gerdded ymhellach, i'r llyn cychod ar waelod y parc. Do'n ni ddim wedi ymweld â'r llyn ers talwm. Cawson ni syndod hyfryd - roedd cywion elyrch yna, pedwar ohonynt. Nes i ni fynd i Ardal y Llynnoedd y llynedd, ro'n ni erioed wedi gweld cywion elyrch yn y gwyllt. Yna, gwelon ni nhw dwywaith - ar Gamlas Luna ger Caerhirfryn, a Chamlas Ulverston. Gwelon ni nyth elyrch yn Ulverston hefyd - roedd wy ynddo doedd e ddim wedi deor yn anffodus.

I grwydro tipyn bach yn fwy, yn Ardal Y Llynnoedd hefyd, halon ni sawl awr yn trïo gweld gweilch y pysgod mewn lle o'r enw Foulshaw Moss. Ro'n i wedi bod yn dilyn Prosiect y Gweilch Dyfi ar y we, a phan welais i'r arwydd am y gweilch, penderfynais i daflu golwg ar y lle. Dwy awr yn ddiweddarach, ro'n ni wedi cael cipolwg ar walch, trwy delesgop cryf oedd gyda gwirfoddolwr. Fyddai fy nheulu a ffrindiau ddim yn adnabod fi, yn aros yn amyneddgar am aderyn! Beth yw'r ystyr amyneddgar eto??



Nawr yn ôl i Barc Singleton. Dyn ni wedi dychwelyd i'r llyn llawer o weithiau i wylio'r cywion elyrch yn tyfu. Ro'n nhw'n llwyd ar y dechrau, ond chwe mis yn ddiweddarach, roedd eu plu nhw'n troi'n wyn. Mae'r amser yn hedfan pan dyn ni'n eu bwydo nhw. Dw i wedi bod yn tynnu lluniau ohonynt ers iddyn nhw fod yn fach, i gadw cofnod o'u datblygiad. Ond faint o luniau sy angen arnoch chi mewn gwirionedd? Llawer yw'r ateb - dw i wastad yn trïo tynnu'r llun perffaith, ond yn ofer - dyw'r adar ddim yn gydweithredol yn aml!

Mae llawer o wyddau hefyd ym Mharc Singleton, ac weithiau maen nhw'n crwydro i'r

brifysgol, neu i Ffordd Mwmbwls - yn beryglus iawn. Maen nhw'n ddoniol iawn - maen nhw'n sylweddoli bod chi'n bwydo'r elyrch a'r hwyaid, ac maen nhw'n rhedeg ac yn hedfan yn isel tuag atoch chi. Ond er eu bod nhw yn y mwyafrif, maen nhw'n dal yn ofni'r elyrch, sy'n diriogaethol iawn. Mae llun 'da fi sy'n dangos llawer o wyddau'n yfed mewn llinell o'r llyn - maen nhw'n edrych fel grŵp o hen ddynion yn yfed wrth y bar!

Nawr, ble bynnag dyn ni'n mynd, mae'n ymddangos fel mae adar ym mhob man! Aethon ni i Barc Porthkerry yn yr haf i weld y draphont, ac wedyn cerddon ni ar hyd y llwybr arfordir i'r Barri, lle daethon ni o hyd i Gerddi Knap. Sa i erioed wedi gweld cymaint o elyrch, bron â thri deg ohonynt, (ond dim cywion elyrch) a llawer o wyddau - gormod i allu eu cyfri! Ro'n nhw'n wyddau "posh" hefyd - gwyddau Canada (do, chwiliais i ar-lein eto i'w adnabod nhw!). Yn lwcus, roedd cnau a hadau adar 'da ni - caeth yr adar wledd (a chawson ni hufen iâ). Ond wrth i ni adael y gerddi, beth ddwedodd yr arwydd hwnna ar y wal? "Peidiwch â bwydo'r adar". Wps. A dyma un arall, a beth yw hwnna draw fanna ar yr arwyddbren lle ro'n ni'n sefyll tybed? Ro'n ni wedi cael ein gwrthdynnu gan yr adar, yn onest! Dihangfa gyflym!!!!

## Diolch Gwyddonwyr

gan Michael Williams

Profiadol

Rydyn ni'n lwcus iawn i fyw yn y wlad hon oherwydd bod gyda ni gymaint o wyddonwyr a chwmnïau da. Mae nifer o'r gwyddonwyr wedi ennill y wobr Nobel, er enghraifft Roger Penrose a enillodd y wobr Ffiseg yn 2020 am ei waith ar dyllau duon a'u perthynas â theori gyffredinol perthnasedd. Yn yr erthygl hon dw i moyn trafod y cyfraniad syfrdanol y mae gwyddonwyr wedi'i wneud i'r frwydr yn erbyn coronafirws. Datblygwyd brechlyn gan wyddonwyr ym mhrifysgol Rhydychen a'r cwmni, Astrazenica, mor gyflym fel bod Prydain yn gallu dechrau ar raglen frechu yn gynharach na gwledydd eraill. Hefyd roedd ymateb yr arbenigwyr sy'n datblygu profion am y firws yn rhagorol.

Pan ddechreuodd y pandemig ym mis Mawrth 2020 sylweddolodd yr Athro Sharon Peacock byddai'n rhaid i'r Deyrnas Unedig greu rhwydwaith ledled y wlad i gadw golwg ar amrywiadau'r firws. Roedd yr Athro yn aelod o'r adran feddygaeth ym mhrifysgol Caergrawnt a hefyd yn gyfarwyddwr iechyd cyhoeddus Lloegr. Trefnwyd cyfarfod o ddeg gwyddonydd ac fe wnaethon nhw greu consortiwm o'r enw *"Cog-UK"*. Roedd pob arbenigwr yn y maes dilyniannu genetig yn rhan o'r sefydliad - cyflawniad rhyfeddol. Mae mwy na 452,000 o firysau wedi cael eu dilyniannu erbyn mis Mai 2021, ac mae hanner y profion ledled y byd wedi cael eu gwneud gan *"Cog-UK"*.

Dechreuodd dilyniannu ADR (DNA) yn 1970au ond datblygwyd y dull gorau gan y biocemegydd Saesneg, Frederick Sanger yn 1977. Sanger yw un o ddau wyddonydd sy wedi ennill dwy wobr Nobel. Fe gafodd y wobr Cemeg yn 1958 am ei waith ar ddilyniannu proteinau, a'r wobr Cemeg yn 1980 am ei waith ar ddilyniannu ADR. Ar ôl datblygiad peiriant sy'n gallu gweithio mewn ffordd awtomatig roedd yn bosibl gwneud y dilyniannu yn gyflym.

Felly, dylen ni longyfarch ein gwyddonwyr am eu gwaith arbennig o dda. O ganlyniad eu gwaith mae'r Deyrnas Unedig mewn sefyllfa well o lawer na gwledydd yr Undeb Ewropeaidd!

## Y Cymry a Llundain

## Ymwelwyr Dros Dro

gan Martin Jones

Profiadol

Mae'r perthynas rhwng y Cymry a Llundain yn dyddio'n ôl i'r Canol Oesoedd. Er enghraifft, byddai meibion y teuluoedd "gorau" (yn eu plith Owain Glyndŵr) yn mynd i'r "Inns of Court" i astudio, nid dim ond er mwyn dod yn gyfreithwyr proffesiynol ond hefyd i ddysgu am y gyfraith, y llywodraeth a sut i ymddwyn yng nghwmni uchelwyr.

Ac, wrth gwrs, roedd y porthmyn yn ymwelwyr cyson â'r brif ddinas i ble bydden nhw'n gyrru nid yn unig gwartheg ond hefyd defaid a cheffylau. Derbyniodd y fasnach hon hwb newydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg wrth i'r Tuduriaid hebrwng cyfnod mwy sefydlog a

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

theithio mwy diogel i mewn. Byddai taith o bythefnos yn dod â'r porthmyn o fewn cyrraedd nifer o farchnadoedd o gwmpas Llundain - ac o fewn cyrraedd y farchnad fwyaf, Smithfield.

Er mwyn sicrhau diogelwch yr arian wedi'i dderbyn gan y porthmyn o werthu'r gwartheg - a diogelwch y porthmyn eu hunain - ym 1799 sefydlodd David Jones (cyn porthmon ei hun) Fanc Yr Eidion Du yn Llanymddyfri. Roedd hyn yn golygu y gallai porthmyn dalu arian i mewn i fanc yn Lloegr a oedd â pherthynas arbennig â Banc Yr Eidion Du. Byddai'r banc hwn yn rhoi nodyn addewid (a oedd yn ddiwerth i ladron) iddo fe. Yn hwyrach, agorodd wyrion David Jones ganghennau yn Llandeilo a Llanbedr Pont Steffan. Roedd Banc Yr Eidion Du'n llwyddiannus iawn a pharhaodd tan 1909 pan gafodd ei gymryd drosodd gan Fanc Lloyds.

Banc tebyg oedd Banc y Ddafad Ddu a agorodd ganghennau yn Aberystwyth a Thregaron yn 1810. Ond doedd y banc hwn ddim yn llwyddiannus ac erbyn 1815 roedd e wedi mynd i'r wal.

Tyfodd y fasnach yn fawr yn ystod y deunawfed ganrif wrth i Lundain a'i galw am fwyd dyfu, a pharhaodd i fod yn bwysig hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond erbyn y 1850au, roedd y gwartheg yn cael eu symud yn fwyfwy gan y rheilffordd ac roedd oes y porthmyn yn dod i ben. Er hynny, roedden nhw wedi helpu i greu perthynas cryf rhwng Cymru a Llundain - llinell gyswllt a sicrhaodd i Gymru gadw cysylltiad â materion Llundain.

Ymwelwyr dros dro eraill i Lundain oed merched y gerddi. Roedd ar boblogaeth gynyddol Llundain angen bwyd, ac achosodd hyn ddatblygiad garddio marchnad ddwys ar hyd Afon Tafwys i'r gorllewin o Lundain. Roedd felly galw am weithwyr tymhorol i gyflawni tasgau fel hofio, chwynnu, casglu a golchi'r cynnyrch, a mynd â fe i'r farchnad. Chwaraeodd merched o Gymru, yn enwedig o Sir Gaerfyrddin a Sir Ceredigion, ran fawr yn y gwaith hwn o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Doedd ddim digon o waith i ferched ifanc yng Nghymru wledig, ac roedd llawer ohonyn nhw'n awyddus i gymryd y cyfle o ychwanegu at eu hincwm prin. Roedd y gwaith yn galed a chysgon nhw ar wellt mewn ysguboriau neu gytiau. Dywedodd un gwyliwr taw caethwasiaeth oedd eu gwaith.



5. *Selling strawberries, a traditional occupation among 'merched y gerddi' – the weeders.*

Doedd hi ddim yn bosib cludo'r mefus i mewn i Lundain mewn cart achos byddai hyn wedi niweidio'r ffrwythau. Felly, cafodd y mefus eu rhoi mewn basgedi bach a gafodd, yn eu tro, eu rhoi mewn basged fawr. Byddai'r merched yn cario'r fasged fawr ar eu pennau i mewn i ganol y ddinas, taith o ryw chwe milltir. Roedd y merched mefus Cymreig yn olwg cyfarwydd ar strydoedd Llundain. Ac aethon nhw adre â sgiliau garddio defnyddiol.

Fel y porthmyn, erbyn canol yr unfed ganrif ar bymtheg, roedd oes merched y gerddi drosodd. Cymerwyd eu lle gan ferched o Iwerddon â daeth i Lundain yn eu miloedd yn sgil y newyn tatws Gwyddelig. Ond erbyn hynny, roedd y merched o Gymru'n dod o hyd i swyddi newydd, naill ai fel morwynion yn nhai'r cefnog neu fel gwerthwyr llaeth.

## Mwyalchen yn Osgoi Cyfrifoldeb

gan Rob Evans

Profiadol

Roeddwn i'n potsian o gwmpas y gegin ar brynhawn heulog, llawer rhy boeth i mi ac yn gweld y fwyalchen yn eistedd ar ochr y gwlâu blodau. Roeddwn i wedi ei weld yn yr un lle ynghynt, roedd o wedi bod yn brysur yn chwilota yn y compost roeddwn i wedi taenu yna ychydig o oriau ynghynt. Roedd yr aderyn yn edrych yn gyfforddus dros ben, yn gorfforol beth bynnag ond roedd yn edrych yn euog, roedd ei lygaid yn chwilota'r coed fel bod o'n edrych allan am ei wraig. Roedd yn edrych yn reit ddwfn yn y compost ac roeddwn yn cymryd ei fod o wedi creu math o nyth iddo ei hun. Roedd drws yr heulfan ar agor, tybed fydd cyfle i mi dynnu llun ohono? Roedd yn werth trio.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mynd i nôl y camera, ei gael yn barod a cherddded yn araf deg ac yn dawel at y drws ond, er ei fod yn eistedd efo'i gefn ataf roedd o wedi synhwyro mod i yna a diflannodd. Doth o ddim yn ôl chwaith. Tybed oedd ei wraig wedi ei weld ac wedi rhoi llond ceg iddo. "Ble wyt ti wedi bod? Ti wedi bod allan rywle am ryw awr a finnau'n brysur yma yn tacluso'r nyth ar ôl i'r cywion ein gadael ni. Does gen ti ddim syniad faint o waith yw cael pethau yn ôl at normalrwydd. Mae bron yn amser te, wyt ti wedi dod ar draws bwyd i ni? Naddo? Wel cer allan i'r ardd yna ble mae'r dyn yn trio tynnu ein lluniau trwy'r amser, mae bob amser pryfed genwair flasus yna. Paid â gwneud dy hun yn gyfforddus yn y gadair yna chwaith, dw i eisiau bwyd rŵan. Cer!"

Ond doth o ddim yn ôl felly bydd rhaid i chi ddibynnu ar y llun dw i wedi creu yn eich pennau!

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru
Elusen Gofrestredig rhif 1126027

**Mynd am dro.....yn Gymraeg!**

**Profiad Aelod Newydd**

gan Jan Hill-Tout



Dechreuais i ddysgu Cymraeg pan nes i ymddeol. Er aeth fy mhlant i'r Ysgol Cymraeg roeddwn i'n rhy brysur gyda theulu a gwaith ar y pryd fel doedd dim digon o oriau yn y dydd am bopeth. Yn anffodus roedd dysgu iaith newydd ar waelod y rhestr. Ar ôl i mi ymddeol a gyda phlant ac wyrion sy'n siarad Cymraeg a mwy o amser sbâr ar gael, mae dysgu Cymraeg yn uwch ar y rhestr felly dechreuais fynd i ddosbarthiadau ym Mhrifysgol Caerdydd.

Ymhen hir a hwyr penderfynais i ddefnyddio fy iaith newydd yn y byd go iawn yn hytrach na dim ond mynd i'r grŵp 'siawns i siarad' yn y caffi lleol. Dw i'n hoff o fynd am dro a hefyd mae diddordeb gyda fi mewn bywyd gwyllt. Ro'n i wedi clywed am Gymdeithas Edward Llwyd, felly meddyliais i - pam lai? Yn anffodus, ar y pryd, doeddwn i ddim hyd yn oed yn gallu deall gwefan y Gymdeithas felly base mynd am dro gyda grŵp bod yn drech na fi. Er mod i'n awyddus i'w wneud - roedd rhaid bod yn amyneddgar. Y llynedd ceisiais eto ddeall y wefan, a'r tro yma ro'n i'n fwy llwyddiannus ac ymunais â'r grŵp o'r diwedd.

Yr her gyntaf wedi cwpla ac o achos y cyfnod clo, ro'n i'n gallu mynd yn ôl i fy nghragen i aros am yr ail her - sef bwcio fy hun ar daith. Ro'n i'n andros o bryderus am ffonio rhywun yng Nghymraeg ond roedd e'n iawn er roedd e'n amhosib i fi dweud fy rif ffôn symudol yng Nghymraeg am ryw reswm. Doedd Eirian dim yn poeni a ro'n i'n teimlo balchder wrth osod y ffôn i lawr.

Roedd diwrnod y drydedd her wedi cyrraedd, sef mynd am dro Gymraeg. Fel pobl eraill efallai dw i'n dueddol o osgoi pethau os dw i'n ofnus ond doedd dim esgus gyda fi. Roedd y tywydd yn braf, doedd y siwrnai i Gynffig dim yn hir a ro'n i'n teimlo'n iawn, felly bant a fi! Cyrhaeddais y maes parcio ac ymunais â grŵp o bobl roedd yn gwisgo esgidiau cerdded, dillad cerdded a bagiau cerdded. 'Dyma nhw' meddyliais i! Ces i groeso cynnes ac roedd hynny yn helpu fi i wir ymlacio. Roedd y cyfeillgarwch yn parhau yn ystod y daith ond hefyd ro'n i'n gallu cerdded ar fy mhen fy hun o dro i dro a chael tipyn bach o egwyl rhag yr holl ganolbwyntio, gwrando, deall a siarad.

Beth am y daith? Roedd yn gylchdaith tua 7 milltir drwy dwyni tywod yr ardal tuag at Afon Cynffig ac yn ôl ar Lwybr yr Arfordir. Arhoson ni weithiau i gael gwybodaeth oddi wrth Eirian am hanes yr ardal, blodau, adar ac wrth gwrs roedd pobl yn y grŵp yn cyfrannu hefyd. Doeddwn i ddim yn gallu deall popeth ond dyma uchafbwyntiau fy nydd - cerdded ar hyd llwybrau cul wrth ochr pyllau dwr enfawr o achos y glaw - gweld tegeirianau o bob math a phlanhigion eraill newydd i fi ar y twyni tywod - clywed ehedyddion yn canu ym mhobman a chael cipolwg o gornchwiglod. Ces i frechdanau ar y traeth yn union fel pan o'n i'n blentyn. Ond cyfeillgarwch y grŵp yw'r cof pwysicaf i fi.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cyrhaeddais y maes parcio wedi blino'n lân achos yr ymarfer corff ond hefyd yr ymarfer meddyliol! Yn anffodus roedd Canolfan yr Ymwelwyr ar gau achos COVID, felly doedd dim paned na chacen ar gael, dim tai bach chwaith! Ond y peth pwysig i fi roedd fy mod i wedi goroesi ac ar y ffordd adre teimlais mor falch am wynebu'r her a baswn i'n annog dysgwyr eraill i fynd amdani. Baswn i ddim wedi colli'r profiad am ennyd a dw i'n edrych ymlaen at y tro nesa. Diolch i aelodau Cymdeithas Edward Llwyd am gefnogi fi.

*Cofiwch fod teithiau Cymdeithas Edward Llywd yn rhoi cyfle arbennig i chi symud ymlaen efo'ch iaith. Fel mae Jan wedi dweud uchod bydd croeso mawr i chi. Yn y dosbarth dach chi'n dysgu digon i chi ddechrau siarad yn y byd go iawn, ond fel ym mhob iaith mae yna lawer o ffyrdd o ddweud yr un peth. Y ffordd gorau i ehangu eich geirfa yw wrth siarad efo'r Cymry Cymraeg.*

*Bydd hi'n anodd y tro cyntaf efallai ond y peth gorau yw mynd yn syth at rywun, dweud pwy ydach chi a'ch bod chi yna am y tro cyntaf. Os nad ydych yn ddigon hyderus i ddod ar ein teithiau ar eich pen eich hunain wel, dewch â ffrind.*

## O Feirion i Dreforys

CD gan Huw Dylan




Eithriad yw canfod arddull neu genre newydd mewn cerddoriaeth gyfoes, yn enwedig yn y Gymraeg. Felly croesewir albwm newydd arwyddocaol o blethu arddulliau roc, rap, llafarganu, ac alawon gwerin i gyfeiliant cywyddau, englynion ac ambell i gân.

Nid gor-ddweud fyddai datgan bod yma eiriau cignoeth ar adegau. Profwn hil-laddiad i'w fwynhau, "Diawlineb yn adloniant", a llofruddiaeth tad gan ei ferch, a hynny yn y pedwar trac cyntaf yn unig!

Dyma gasgliad newydd Huw Dylan, O Feirion i Dreforys, a rhwng y llafarganu barddoniaeth a chaneuon dirdynnol ceir alawon traddodiadol ar gitarau trydan band roc.

Ac yntau'n hanu yn wreiddiol o Ddolgellau aiff y casgliad â ni ar daith i'w gartref presennol yn Nhreforys, Abertawe, gan fynd ar ambell antur i Lydaw, Sempringham a thiroedd brodorol yr Amerig ar y ffordd. Ar glawr mewnol y CD gwelir:

Ar hyd heol hudolus - am ennyd

dymunaf eich tywys;

o fro i fro dewch ar frys

o Feirion i Dreforys.

Yn ogystal â chyfansoddiadau gwreiddiol, clywn wedd newydd ar waith dau fardd o fri, a chaiff gwmni cerddorion o safon i gyd-ganu. Dyma albwm wahanol ac unigryw ar gyffordd cerddoriaeth werin draddodiadol Cymru, barddoniaeth gynganeddol, a rap a roc Eingl-Americanaidd. I'w ffeilio o dan Tradd-Rap...

O Feirion i Dreforys gan Huw Dylan ar gael nawr i'w ffrydio neu ar CD drwy Bandcamp a siopau Cymraeg.

## Dic Shonnery


Mae pobl yn mynd i bob math o drwbl pan maen nhw eisiau dweud "I'm excited". Maen nhw'n dweud"Dw i'n gyffrous" heb iddyn nhw sylweddoli mai "I'm exciting" mae hynny'n golygu. Wel efallai bod nhw'n exciting ond fel maen nhw'n dweud yn Saesneg "Let us be the judge of that!"

Er mwyn dweud "I'm excited" mae'n rhaid defnyddio brawddeg "Dw i wedi cael fy nghyffroi"

Cofiwch mae gwahaniaeth rhwng "exciting" ac "excited".

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

## Pos Val



**Croesair 4**

Cliwiau

| Ar Draws | I Lawr |
|---|---|
| 1) Cael golwg | 1) Mwyn du |
| 3) Llyfu | 2) Cyfran |
| 5) Arbennigwr llygaid | 3) Blinedig |
| 7) Gwron | 4) Gweddillion |
| 8) Asgell | 6) Gwyll |
| 10) Dilyw | 7) Maldod |
| 12) Ffetan | 9) Arswydo |
| 13) Enillion | 11) Yn rhad ac am __? |

## Geirfa

**Cynllun Iaith**
Sylfaen cadarn - strong foundation
Syndod - surprise
Gwahoddiad - invitation
Llandeilo Ferwallt - Bishopston
Aelodau selog - zealous membersAnffurfiol - informal
Elwa - to profit
Efelychu - to imitate
Cyfrifiad - census
Ymdrechion - attemps
Gweledol - visible
Yn ddelfrydol - ideally
Amgylchiadau - circumstances
Bodolaeth - existence
Cyfyngiadau - restrictions
Siaradwr gwadd - guest speaker
Gweithgareddau - activities
Heb amheuaeth - without doubt
Brwdfrydig - enthusiastic
Cymysgu - to mix
Dychmygu - to imagine
Annog - to encourage
Bodolaeth - existence
Ysbrydolaeth - inspiration
Grŵp cynnal - support group

**Croeso cynnes**
Iaith y Nefoedd - the language of Heaven
Uchafbwynt - the highlight
Gostwng - to reduce
Yn raddol - gradually
Bendith - blessing
Byd go iawn - the real world

**Pont Menai**
Ar frys - in a hurry
Deddf Unioni - Act of Union
Dyfeisio - to invent
Jac Codi Baw - JCB
Archwilio - to survey
Diddiwedd - ceaselessly
Yn y pendraw - in the end
Ymchwiliad cyhoeddus - public enquiry
Madfall prin - rare lizard
Cynefin - habitat
Gweinidog trafnidiaeth - Transport Secretary
Codi ofn - to raise fear
Am wn I - as far as I know
Rhyddhad mawr - a great relief
Coets - coach
Talcen - forehead
Llif - current
Culfor - strait (Menai Strait)
Cymryd yn ganiataol - to take for granted
Seiri meini - stone masons
Corddi - to churn
Oddi danyn nhw - underneath them
Peiriannau trwm - heavy machines
Nerth bôn braich - physical strength
Stwythr cadarn - solid structure
Gosgeiddig - elegant
Pont crog - suspension bridge

**Bywyd gwyllt**
Titŵod tomos las - bluetits
Ciwt - cute
Pioden - magpie
Llysenw - nickname
Llyn cychod - boat lake
Cywion elyrch - cygnets
Camlas - canal
Caerhirfryn - Lancaster, (Sir) Lancashire
Deor - to hatch
Gwalch y Pysgod - osprey
Cipolwg - glimpse
Gwirfoddolwr - volunteer
Amyneddgar - to be patient

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pluen - feather. Plu - feathers
Cadw cofnod - to keep a record
Datblygiad - development
Yn ofer - in vain
Cydweithredol - cooperative
Gwydd - goose
Yn y mwyafrif - in the majority
Tiriogaethol - territorial
Gwledd - a feast
Arwyddbren - notice board
Gwrthdynnu - to distract
Dihangfa - escape route

**Diolch Gwyddonwyr**
Gwyddonwyr - scientists
Tyllau duon - black holes
Perthnasedd - relativity
Cyfraniad - contribution
Syfrdanol - amazing
Datblygwyd - was developed
Rhwydwaith - network
Dilyniannu - to sequence
Cyflawniad - achievemnt
ADR - asid deoxyribonucleig

**Ymwelwyr dros dro**
Canol oesoedd - middle ages
Cyfreithiwr - solicitor
Cyfraith - the law
Ymddwyn - to behave
Uchelwyr - noblemen
Porthmyn - drovers
Cyson - regular
Hebrwng - to lead
Sefydlogrwydd - stability
Nodyn addewid - promissory note
Diwerth - worthless
Parhau - to last
Mynd i'r wall - to go bankrupt
Dros dro - temporary
Gweithwyr tymhorol - seasonal workers
Hofio - to hoe
Chwynnu - to weed
Ysgubor - barn
Cwt - shed
Mefus - strawberries
Niweidio - to damage
Newin tatws - potato famine
Morwyn - maid

**Mwyalchen**
Potsian - pottering
Mwyalchen - blackbird
Chwilota - to rummage
Taenu - to spread
Yn gorfforol - bodily
Heulfan - conservatory
Synhwyro - to sense
Diflannu - to disappear
Tacluso - to tidy up
Pryfed genwair - worms
Blasus - tasty

**Mynd am dro**
Gwaelod y rhestr - bottom of the list
Pam lai? - why not?
Yn drech na fi - too much for me
Yn ôl i fy nghragen - back to my shell
Cyfeillgarwch - friendship
O dro i dro - from time to time
Egwyl - a break
Canolbwyntio - to concentrate
Cylchdaith - circular walk
Twyni tywod - sand dunes
Cyfrannu - to contribute
Uchafbwyntiau - highlights
Tegeirian - orchid
Ehedydd - skylark
Cornchwiglen - lapwing
Ymarfer meddyliol - mental excercise
Goroesi - to survive

## Y Croesair

Atebion

| Ar Draws | | I Lawr | |
|---|---|---|---|
| 1) | Gweld | 1) | Glo |
| 3) | Llyo | 2) | Dogn |
| 5) | Optegydd | 3) | Lluddedig |
| 7) | Arwr | 4) | Olion |
| 8) | Aden | 6) | Tywyllwch |
| 10) | Llifogydd | 7) | Anwes |
| 12) | Sach | 9) | Ofni |
| 13) | Incwm | 11) | Ddim |

# Byw. Bod.

**Am fwy o wybodaeth ac archebu lle:**
**bywbod@gmail.com**




## Mapio'r Moelwynion

Diwrnod ar y mynydd
a chyfle i ddysgu sgiliau darllen map
efo Heicio a Beicio Eryri.

30 Gorffennaf 2021
Pris: £30

## Byd o Les

Dysgu am lesiant byd natur drwy daith
gerdded efo Catrin, Maeth Natur.
I'w ddilyn gan sesiwn pilates
efo Lauren Hill Pilates
21 Awst 2021 - Llanfrothen
11 Medi 2021 - Ardal Ffestiniog
Pris: £35





## Darlun o'r Ardal

Cwrs deuddydd i ddysgwyr Cymraeg
Bore: Sesiwn 'Nabod yr Ardal'
efo Llinos, Gwefus
Pnawn: Sesiwn gelf yn
darlunio'r ardal efo'r artist Sian Elen
14 a 15 Awst 2021 - Penrhyndeudraeth
25 a 26 Medi 2021 - Croesor
Pris penwythnos: £100

## Profiad Llawn Gwlân

Gweithdai trin gwlân o'r cnu i'r crefftio
efo Olwen Fferm y Llan, Llanfrothen.
Mae hwn yn gwrs dau fore
(10yb - 12.30) ar y fferm ac yn cynnwys yr holl
ddeunydd fydd angen.
Cysylltwch i drefnu amser.
Pris y deuddydd: £150



**Gwefan: www.byw-bod.cymru**